

**Arolygiad Iechyd Meddwl
/ Anabledd Dysgu
(Dirybudd)**

**The Priory, Pentre'r
Eglwys: Craegmoor
Hospitals Limited**

23 – 24 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan GIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Methodoleg	5
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	7
4. Crynodeb.....	8
5. Canfyddiadau	9
Safonau Craidd	9
Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl	19
Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	20
6. Y Camau Nesaf	21
Atodiad A.....	222

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu yn agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro cydymffurfiaid â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Mae arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yn canolbwyntio ar sicrhau bod unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath:

- Yn ddiogel
- Yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- Yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol
- Yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun triniaeth a gofal
- Yn cael ei gynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewis
- Yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu potensial llawn
- Yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- Yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu y mae AGIC yn ei ddefnyddio i gyflawni'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr gyda chleifion, perthnasau, eiriolwyr a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr a staff nyrsio
- Cyfweiliadau gydag aelodau staff uwch gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle bo hynny'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff gan gynnwys cofnodion hyfforddi
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar ddogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried gweithrediad Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion yn ymwneud ag ataliaeth, cwynion, pryderon ac atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer storio, rhoi, archebu a chofnodi cyffuriau, gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyriaeth o ansawdd bwyd

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n gwneud darpariaeth o ran asesu, cynllunio gofal a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

- Gweithrediad y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar safon y gofal y mae cleifion yn ei dderbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad iechyd meddwl ac anabledd dysgu dirybudd â The Priory, Pentre'r Eglwys, ar 23 a 24 Mawrth 2016.

Ysbyty annibynnol a gofrestrwyd gydag AGIC gyntaf ym mis Mai 2013 yw The Priory, Pentre'r Eglwys, ac ar adeg ein harolygiad roedd wedi ei gofrestru i ddarparu gofal i ddeuddeg (12) o gleifion. Mae'r ysbyty'n cynnig gwasanaeth ar gyfer trin a nyrsio cleifion ag anabledd dysgu y mae'n rhaid eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac unigolion sydd â phrif ddiagnosis o anabledd dysgu, gan gynnwys y rhai sydd hefyd â diagnosis iechyd meddwl gweithredol a nodwyd.

Adolygwyd y meysydd a nodwyd gennym yn ystod ein hymweliad, gan gynnwys adolygu cofnodion cleifion, cyfweld cleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi rhyngweithiadau rhwng staff a chleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd cymheiriaid, un adolygydd lleyg, a dau aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Amlygodd ein hymweliad ag ysbyty The Priory, Pentre'r Eglwys, rai meysydd o arfer i'w canmol ac roeddem yn falch gyda'r cynnydd a wnaed ers ein hymweliad blaenorol ym mis Medi 2014. Roedd y meysydd a nodwyd yn cynnwys:

- Yr agoswydd a'r berthynas waith dda a welwyd gennym rhwng y staff a'r cleifion
- Roedd dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl wedi cael eu cynnal yn dda
- Y nifer sefydlog a llawn o aelodau'r tîm amlddisgyblaethol
- Roedd staffio wedi sefydlogi ac roedd nifer y staff yn fwy na'r nifer a restrwyd yn y Datganiad o Ddiben
- Roedd penodiad Cydgysylltydd Gweithgareddau yn helpu i wneud cynnydd i wella cysylltiadau a mynediad cymunedol
- Gwnaeth y cleifion a'r staff sylwadau ffafriol am y bwyd, a dewis ac ansawdd y bwyd a weinir yn arbennig
- Roedd yr ysbyty'n ymddangos yn lân ac wedi ei gynnal a'i gadw'n dda.

Canfuwyd lle i wella gennym mewn nifer o feysydd. Caiff y meysydd yr ydym wedi nodi y dylid eu gwella eu cofnodi yn Atodiad A, ond mae crynodeb o'r prif faterion yn cynnwys:

- Cynnydd parhaus tuag at ymsefydlu goruchwyliaeth staff yn llawn
- Nifer o faterion a nodwyd yn yr ystafell glinigol, gan gynnwys meddyginiaeth heb unrhyw ddyddiad agor wedi'i gofnodi, meddyginiaeth a oedd wedi cael ei stopio ac yr oedd angen ei dychwelyd neu gael gwared arni, ac ail lofnodion ac amseroedd ar goll o gofnodion cleifion
- Dylid sicrhau mwy o bwyslais ar gynllunio ar gyfer rhyddhad a phennu nodau sy'n seiliedig ar wellhad
- Mae angen i gynlluniau gofal ganolbwyntio mwy ar yr hyn y gall cleifion ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y ward

Mae ysbyty annibynnol The Priory, Pentre'r Eglwys, wedi ei leoli yn Nhon-teg ger Pontypridd ac mae o fewn pelter cerdded i amwynderau lleol. Ceir lleoedd parcio digonol ar safle'r ysbyty ar gyfer staff ac ymwelwyr. Rydych yn cyrraedd derbynfa fach ond braf wrth fynd i mewn i'r ysbyty. Mae gorsaf y nyrsys wedi'i lleoli yma a gellir gweld y coridor i'r ward oddi yno. Fe'n hysbyswyd bod staff ac ymwelwyr yn mewnlodfodi gan ddefnyddio'r llyfr ymwelwyr. O'r dderbynfa, gallwch fynd i mewn i'r ward neu gael mynediad at swyddfeydd y staff ac ystafell gyfarfod sydd wedi'u lleoli i fyny'r grisiau.

Ceir mynediad at bob rhan o'r ysbyty gyda ffob allwedd, yr oedd yr holl staff yn meddu arno. Mae'r ward yn siâp pedol ac mae'r holl fannau i gleifion a'r ystafelloedd gwely wedi'u lleoli ar y llawr daear. Rydych yn cyrraedd coridor mawr wrth fynd i mewn i'r ward. Mae lolfa gleifion fawr wedi'i lleoli yng nghanol y ward. Roedd digonedd o seddi yn y lolfa ac roedd teledu wedi ei osod ar y wal.

Roedd lolfa dawel lle ceir cyfrifiadur a rhai seddi wedi'i lleoli gyferbyn â'r lolfa. Roedd yr ystafell hon yn hygyrch i'r grŵp cleifion ond roedd angen i'r staff agor y drws gan fod yr ystafell yn cael ei chloi.

Roedd nifer o hysbysfyrdau cleifion wedi'u harddangos ar y waliau wrth y fynedfa i'r lolfa. Roedd y wybodaeth a arddangoswyd yn cynnwys manylion cyswllt eiriolwyr, cwynion, amserlen glanhau dillad, a gwybodaeth am weithgareddau.

Ceir deg ystafell wely en-suite ar y brif ward. Gwelwyd un ystafell wely wag gennym yr oedd angen rhoi sylw iddi oherwydd difrod sylweddol i'r wal gan y meddiannydd blaenorol. Roedd gwely sengl, cwpwrdd erchwyn, cwpwrdd dillad, a chwprdd droriau yn yr ystafell i gleifion roi eu heiddo. Bu un o'r cleifion yn ddigon caredig i ddangos ei hystafell wely i ni, a oedd wedi ei dodrefnu gyda'i dillad gwely ei hun a lle'r oedd eitemau personol i'w gweld. Roedd cwpwrdd dillad, cwpwrdd droriau a chwprdd erchwyn yn yr ystafell. Roedd cawod, toiled a sinc yn yr ystafell ymolchi en-suite. Roedd yr ystafell yn lân ac roedd tystiolaeth o bersonoli.

Roedd yr ystafell fwyta yn cynnig cadeiriau a byrddau i'r cleifion fwyta gyda'i gilydd. Roedd agoriad gweini o'r gegin i'r ystafell fwyta yn galluogi i fwyd gael ei weini'n uniongyrchol i'r cleifion. Roedd seld ar hyd ochr yr agoriad gweini â fflasgiau dŵr poeth, sgwosh a chwpanau arni, a oedd yn caniatáu i'r cleifion gael mynediad at ddioddydd poeth ac oer. Roedd bwydlenni a phosteri bwyta'n iach wedi eu harddangos ar yr hysbysfyrdau yn yr ystafell fwyta. Ceir ffenestri mawr yn yr ystafell sy'n gadael digon o olau naturiol i mewn i'r ystafell fwyta.

Roedd gan y cleifion fynediad at ardd lle'r oedd lloches ysmegu. Roedd y man yn yr awyr agored yn gwbl laswelltog ac yn ddiflas o ran ei ymddangosiad ac, er ei fod yn daclus, nid oedd yn ymddangos fel lle hwylus i dreulio amser yn yr awyr agored. Roedd rhai meinciau pren i gleifion eistedd arnynt. Fe'n hysbyswyd gan y staff bod cynlluniau'n cael eu gwneud i wella'r man yn yr awyr agored.

Roedd byngalo dau wely, ar wahân yn cynnig cyfleuster cam- i-lawr i'r cleifion. Roedd dwy ystafell wely yn y byngalo, un ystafell ymolchi â thoiled ac un thoiled ar gyfer ymwelwyr. Roedd lolfa fach lle'r oedd teledu a seddi ac un man cynllun agored mawr yn cynnig lolfa a chegin/ystafell fwyta. Roedd y byngalo yn lân ac yn gartrefol ac roedd dodrefn meddal fel clustogau a llenni yn y lolfeydd yno. Roedd y gegin yn cynnig y cyfleusterau i'r cleifion sydd eu hangen arnynt i baratoi a choginio eu bwyd eu hunain. Roedd seddi cyfforddus yn y lolfa a drysau Ffrengig yn agor i ardd breifat.

Roedd y byngalo gweithgarwch (Melrose) yn cynnig nifer o ystafelloedd lle gall y cleifion gymryd rhan mewn therapïau a gweithgareddau. Gwelwyd cegin therapi, ystafell synhwyrdd ac ystafell celf a chrefft yn ystod ein hymweliad.

Roedd byngalo arall ar dir yr ysbyty yn cynnig swyddfeydd i'r staff.

Roedd yr addurniad yn yr ysbyty yn foddhaol drwyddi draw ac roedd lluniau wedi'u harddangos ar y waliau yn y coridorau ac mewn mannau eraill ar gyfer y cleifion. Nodwyd gennym fod yr amgylchedd yn lân trwy gydol yr ysbyty ac yn rhydd o unrhyw arogleuon annymunol. Roedd dyfeisiau a/neu ddodrefn a oedd wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn gweithio'n iawn yn yr holl fannau ar gyfer cleifion.

Diogelwch

Ar y cyfan, dywedodd mwyafrif y staff i ni siarad â nhw nad oedd ganddynt unrhyw bryderon am ddiogelwch, ond gwnaed rhai sylwadau am ddiogelwch yr amgylchedd ffisegol. Dywedodd rhai staff y gallai cleifion gicio trwy waliau'n rhwydd gan nad oeddent mor gryf ag y gallent fod, a bu achosion pan fo clychau galw nyrsys wedi cael eu tynnu o'r wal. Gwelwyd hyn mewn un ystafell wag yn ystod ein hymweliad. Fodd bynnag, gwnaed sylwadau ffafriol ar y gwaith cynnal a chadw yn yr ysbyty a chaiff tasgau cynnal a chadw eu cwblhau'n brydlon.

Gwelwyd staff yn gwisgo larymau personol yn ystod ein hymweliad ac roedd gan yr holl staff eu hallweddi eu hunain i gynnig mynediad at fannau diogel. Mae'r holl ymwelwyr yn yr ysbyty yn cael mynediad trwy ganu cloch y drws ac mae'n ofynnol iddynt mewnlododi.

Fe'n hysbyswyd gan rai cleifion i ni siarad â nhw nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty a nodwyd ymddygiad cleifion eraill ganddynt fel eu prif reswm am deimlo mewn perygl. Fe'n hysbyswyd gan y cleifion eu bod wedi

siarad â staff am eu pryderon a'u bod yn fodlon o ran sut yr oedd y sefyllfa'n cael ei thrin.

Codwyd pryderon am lefelau staffio gan rai cleifion a staff. Fe'n hysbyswyd gan gleifion fod diffyg o ran lefelau staffio wedi arwain at weithgareddau a mynediad cymunedol cyfyngedig. Fe'n hysbyswyd gan rai staff hefyd am adegau pan fu lefelau staffio yn isel, yn enwedig pan oedd staff yn ffonio i mewn yn sâl ac na ellid dod o hyd i staff arall ar fyr rybudd.

Roedd proses recriwtio ar gyfer dwy swydd wag ar y gweill ar adeg ein hymweliad ac roedd dau glaf yn destun trefniadau arsylwi un i un. Gwelsom fod digon o staff ar ddyletswydd i reoli'r arsylwadau yn ogystal â hwyluso ymweliadau cymunedol. Archwiliwyd nifer o rotas dyletswydd ac roedd yn amlwg bod lefelau staffio wedi mynd y tu hwnt i'r lefelau staffio gofynnol a nodir yn y Datganiad o Ddiben.

Y tîm amlddisgyblaethol

Roedd yn gadarnhaol clywed bod gwelliannau parhaus wedi cael eu gwneud ac yn parhau i gael eu gwneud yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ers ein hymweliad olaf ym mis Medi 2014. Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys y clinigydd cyfrifol, therapi galwedigaethol, nyrsys a seicoleg. Fe'n hysbyswyd gan staff bod trafodaethau'n gynhwysol a bod safbwyntiau proffesiynol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Cynhelir cyfarfodydd trosglwyddo beunyddiol rhwng pob sifft er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o faterion allweddol yn ymwneud â gofal cleifion.

Cynhelir cyfarfodydd fforwm staff hefyd, sy'n annog y staff i rannu syniadau am sut y gellir gwella pethau.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd gan yr holl gleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain â chyfleusterau en-suite ac roeddent yn gallu arddangos eitemau personol i'w gwneud yn fwy personol a chartrefol. Gallai'r cleifion gloi drysau eu hystafelloedd gwely o'r tu mewn i'r ystafell, ond gall y staff ddadwneud hyn os oes angen. Roedd paneli arsylwi mewn drysau wedi eu cau ar adeg ein hymweliad, sy'n galluogi'r cleifion i gynnal eu preifatrwydd a'u hurddas tra eu bod yn eu hystafelloedd gwely.

Roedd cyfleusterau ar gael i gleifion gyfarfod gyda theulu a ffrindiau yn breifat. Nid oedd ffôn talu ar gael yn yr ysbyty ond gall cleifion ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain (os bydd eu cynllun gofal yn caniatáu hynny) neu roedd modd cael mynediad at ffôn yr ysbyty a'i ddefnyddio ar ôl 6pm.

Ni ddywedodd yr un o'r staff a'r cleifion i ni siarad â nhw fod urddas a phreifatrwydd yn cael eu peryglu mewn unrhyw ffordd. Gwelwyd cleifion yn cael eu hannerch gan ddefnyddio'r enw o'u dewis a staff yn cnocio drysau ystafelloedd gwely cyn mynd i mewn.

Gofal iechyd cyffredinol

Cynhaliwyd adolygiad o'r ystafell glinigol a nodwyd yr arsylwadau canlynol:

- Wrth archwilio'r ystafell glinigol, gwelsom fod gorchuddion meddygol mewn bocs cardfwrdd wedi'i storio ar yr arwyneb gwaith. Nid oedd llawer iawn o le yn y clinig ac felly roedd y bocs yn cael ei symud o gwmpas y clinig er mwyn gwneud lle dros dro. Gellid storio'r gorchuddion mewn cwpwrdd ac efallai y gellid ystyried faint o becynnau gorchuddion sydd eu hangen ar unrhyw adeg benodol.
- Roedd drws stabl ar yr ystafell glinigol. Fe'n hysbyswyd gan y nyrs i ni siarad â hi y bu nifer o achlysuron pan oedd cleifion wedi plygu dros y drws a'i agor o'r tu mewn gan alluogi'r claf i gael mynediad. Roedd y sefyllfa hon yn codi materion yn ymwneud â diogelwch ac iechyd a diogelwch a drafodwyd gyda'r rheolwyr yn ystod ein cyfarfod adborth.
- Roedd y drefn ar gyfer rheoli tymheredd yr oergell yn dda.
- Amlygodd ein hadolygiad o wybodaeth cleifion fod gan un claf alergedd i latecs, ac felly roeddem yn falch o weld bod y clinig yn arddangos nodiadau'n ymwneud â hyn ac roedd y bocs menig hefyd wedi ei farcio er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.
- Nid oedd meddyginiaeth a oedd wedi cael ei stopio wedi cael ei gwaredu na'i dychwelyd.
- Nid oedd ail lofnod wedi ei gofnodi ar gofnod claf dyddiedig 19 Mawrth 2016 ac nid oedd yr amser a roddwyd y feddyginiaeth wedi ei gofnodi ar sawl achlysur.
- Nid oedd dyddiad agor wedi ei gofnodi ar botel o feddyginiaeth
- Roedd arsylwadau'n ymwneud â chyffuriau a reolir yn cynnwys:
 - Roedd cyffuriau a reolir wedi eu storio mewn cwpwrdd wedi ei gloi.
 - Er ei bod yn gywir, roedd y drefn ar gyfer cofnodi meddyginiaeth a roddwyd a chydbwysedd meddyginiaeth yn ddryslyd gan fod

gwahanol unedau mesur yn cael eu defnyddio. Rhoddwyd 60mg o gyffur ar bresgripsiwn i glaf a rhoddwyd y cyffur ar ffurf tabledi 30mg. Roedd y cofnod wedi ei logio fel '60', a oedd yn gywir o ran miligramau, ond roedd yn ddryslyd gan mai dim ond dwy dabled oedd hyn. Byddai dull safonol yn cael gwared ar unrhyw ddryswch ymhlith y staff.

- Roedd tudalen fynegai'r llyfr cyffuriau a reolir yn cynnwys cyffur yr oedd angen ei groesi allan.
- Nid oedd tudalennau mynegai'r llyfr cyffuriau a reolir yn dangos y dudalen gywir yn y llyfr yr oedd y feddyginiaeth wedi ei chofnodi arni.

Gofynion

Mae angen cynnal adolygiad o'r ystafell glinigol gan roi sylw penodol i:

- Storio gorchuddion meddygol a chyflenwadau eraill fel nad yw'r ystafell yn anniben.
- Mae angen asesu'r drws i'r ystafell glinigol er mwyn sicrhau na all cleifion ei agor.
- Mae angen gwirio'r feddyginiaeth sy'n cael ei storio yn yr ystafell glinigol er mwyn sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth sydd heibio ei dyddiad a/neu wedi ei thynnu yn ôl o drefn feddyginiaeth claf yn cael ei gwaredu neu ei dychwelyd.
- Dylid rhoi dyddiad agor ar becyn unrhyw feddyginiaeth sy'n cael ei hagar.
- Cofnodi llofnodion ac amseroedd ar gofnodion a siartiau meddyginiaeth.
- Defnyddio unedau mesur safonol yn benodol i gofnodi lefelau stoc a meddyginiaeth a roddir.
- Roedd angen croesi cyffur a restrwyd ar dudalen fynegai'r llyfr cyffuriau a reolir allan gydag un llinell drwy'r cofnod.
- Nid oedd tudalennau yn y llyfr cyffuriau a reolir yn cyfateb i'r cyffuriau a gofnodwyd yn y mynegai.

Therapiau a gweithgareddau cleifion

Roedd cyfleuster penodol yn yr ysbyty (byngalo Melrose) lle darparwyd y rhan fwyaf o weithgareddau a therapïau ohono. Roedd nifer o ystafelloedd yn y byngalo i gleifion gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys cegin therapi, ystafell celf a chreffft, ac ystafell dawel.

Roedd hysbysfyrddau yn dangos gwybodaeth am weithgareddau ac roedd gan y cleifion eu hamserlenni unigol eu hunain i'w dilyn. Fe'n hysbyswyd gan y staff bod y cleifion yn cael cynnig llawer o weithgareddau, a oedd yn cynnwys grwpiau cymdeithasol, crefftau, grŵp cerdded, gwnïo, lliwio, cyllidebu, a chwarae ar y Wii. Roedd cleifion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a chawsom sgwrs gyda rhai cleifion a oedd yn mynychu'r llyfrgell leol lle'r oeddent yn astudio mathemateg a Saesneg. Roedd claf arall yn hoffi mynd i'r ganolfan hamdden leol ac roedd llawer o gleifion yn mwynhau mynd i siopa. Roedd teithiau wedi'u trefnu a phrydau allan hefyd yn hoff weithgareddau y mae'r cleifion yn eu mwynhau.

Roedd gweithgareddau ar benwythnosau a min nos yn cael eu hwyluso gan staff cymorth gofal iechyd. Dywedodd rhai cleifion yr hoffent weld mwy o weithgareddau'n cael eu cynnig yn ystod yr adegau hyn ac fe'n hysbyswyd y bydd gwaith datblygu'n cael ei wneud i gynorthwyo'r cynorthwywyr gofal iechyd i wneud hyn.

Roedd y therapydd galwedigaethol wedi bod yn ei swydd ers chwe mis ac yn cael ei gynorthwyo gan gynorthwydd therapi galwedigaethol rhan-amser a chydgyssylltydd gweithgareddau llawn amser. Roedd y gwasanaeth therapi galwedigaethol yn esblygu ac roedd cynlluniau ar y gweill i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach o ran mwy o gysylltiadau cymunedol a gweithgareddau mewnol. Soniodd y staff am gynlluniau i ddatblygu'r ardd i'w gwneud yn fwy therapiwtig a phrynwyd tŷ gwydr i gefnogi'r prosiect hwn.

Roedd rhaglen o therapïau hefyd ar waith i gefnogi'r cleifion. Roedd yr adran seicoleg yn cynnig sesiynau unigol sy'n briodol i anghenion y claf a hefyd yn hwyluso sesiynau grŵp, gan gynnwys ymwybyddiaeth ofalgar ac ymlacio. Fe'n hysbyswyd gan y staff am gynlluniau i ddatblygu'r gwasanaeth seicoleg ymhellach ac roedd hyfforddiant ac arfer Therapi Ymddygiad Dialectig² yn flaenllaw yn y cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Fe'n hysbyswyd gan y cleifion i ni siarad â nhw nad oedd ganddynt unrhyw broblemau yn cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd eraill, gan gynnwys meddyg teulu, deintydd a/neu optegydd. Roedd yr holl apwyntiadau'n cael eu

² Therapi seicolegol ar gyfer pobl ag anhwylder personoliaeth ffiniol yw therapi ymddygiad dialectig, a'r rhai ag ymddygiad hunan-niweidiol neu feddyliau am ladd eu hunain yn arbennig.

trefnu a'u hwyluso gan y staff ac roedd y cleifion yn cael eu cludo i'w hapwyntiadau.

Roedd gan yr ysbyty wasanaeth eiriolaeth ar waith ac roedd gan y staff a'r cleifion farn uchel ohono. Roedd y cleifion i ni siarad â nhw yn gwybod pwy oedd yr eiriolwr a sut i gysylltu os oedd angen. Roedd poster i'w weld ar yr hysbysfwrdd a oedd yn dangos enw, llun a manylion cyswllt yr eiriolwr. Roedd yr eiriolwr yn mynychu'r ysbyty yn rheolaidd ac mae wedi cefnogi cleifion yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol pan fu angen, yn ogystal â'r gwasanaethau eraill a gynigir, a bydd yn parhau i wneud hyn yn y dyfodol.

Roedd y cleifion a'r staff yn paratoi ar gyfer gŵyl Pasg ar adeg ein hymweliad, a gwelsom staff yn pobi a chleifion yn addurno cacennau. Roedd rhai cleifion yn lliwio a dylunio eu hwyau Pasg eu hunain ar dempledi papur gwag, a oedd wedi eu harddangos yn yr ystafell fwyta. Byddai'r dyluniad gorau'n ennill gwobr. Cynhaliwyd bwffe amser cinio hefyd lle bwytaodd yr holl staff a'r cleifion gyda'i gilydd.

Bwyd a maeth

Roedd y rhan fwyaf o'r adborth gan gleifion a staff yn gadarnhaol o ran y bwyd sy'n cael ei gynnig yn yr ysbyty. Darperir pedwar pryd y diwrnod i'r cleifion, gan gynnwys brecwast, cinio, te a swper. Caiff y bwydlenni eu newid ar gylch o bedair wythnos ac roeddent wedi eu harddangos yn yr ystafell fwyta. Roedd y bwydlenni wedi eu hargraffu ar bapur maint A4 a byddai o fudd eu hargraffu ar bapur mwy i wneud yr ysgrifen yn fwy.

Rheolir brecwast gan staff therapi galwedigaethol a staff cymorth gofal iechyd, a ddywedodd wrthym fod y pwyslais ar opsiynau brecwast iach. Roedd cinio yn opsiwn ysgafnach yn cynnwys brechdanau, tatw pob gyda llenwadau, a saladau. Roedd y fwydlen fin nos yn cynnig dau ddewis ac yn bryd poeth. Grawnfwydydd neu dost fyddai'r swper i'r rhai oedd yn dymuno ei gael.

Gwnaed sylwadau ffafriol ar faint y prydau a'r dewis o brydau sydd ar gael gan fwyafrif y cleifion a'r staff i ni siarad â nhw. Roedd y gallu yno i fodloni unrhyw ofynion deietegol arbennig, ond nid oedd y staff yn siŵr a oedd y pwdinau a gynigir yn rhydd o siwgr ar gyfer cleifion â diabetes. Mae'n rhaid rhoi sicrwydd bod bwyd sy'n cael ei weini i bob claf yn addas ar gyfer eu hanghenion.

Roedd diodydd poeth ac oer ar gael bob amser yn yr ystafell fwyta i gleifion helpu eu hunain. Gall cleifion brynu a storio eu byrbrydau eu hunain ac roedd eu cypyrddau'n cael eu hagor ddwywaith y diwrnod i'r cleifion gael rhywbeth blasus.

Nid oedd unrhyw fynediad mewnol at ddeitegydd a dywedodd y staff y byddent yn gofyn am gyngor trwy lwybr allanol pe bai angen cyngor deietegol penodol.

Arsylwyd cyfnod amser cinio gennym yn ystod ein hymweliad ac roeddem yn falch o weld sut yr oedd y staff a'r cleifion yn bwyta gyda'i gilydd ac yn rhyngweithio. Roedd y bwyd a gafodd ei weini yn edrych yn flasus ac roedd y cleifion a'r staff yn mwynhau salad, cawl a brechdanau bysedd pysgod. Roedd matiau bwrdd wedi eu gosod ar y bwrdd ynghyd â phapur a halen a sawsiau, a oedd yn cyfrannu at y profiad bwyta cadarnhaol i ni ei weld.

Gofynion

Mae angen sicrwydd bod yr holl fwyd sy'n cael ei weini i'r grŵp cleifion yn bodloni eu gofynion deietegol a meddygol.

Argymhelliad

Roedd y bwydlenni a oedd wedi eu harddangos yn yr ystafell fwyta wedi eu hargraffu ar bapur maint A4 a byddai o fudd pe baent yn cael eu hargraffu ar bapur mwy i wneud yr ysgrifen yn fwy.

Hyfforddiant

Cynhaliwyd adolygiad o ffeiliau pump o staff, a nodwyd gennym pa mor gyson oedd y ffeiliau o ran storio gwybodaeth. Roedd tudalen gynnwys ym mhob ffeil a oedd yn cyfateb i dudalennau rhannu fel y gallech ddod o hyd i wybodaeth benodol yn gyflym ac yn rhwydd. Roedd yr holl ffeiliau a adolygwyd yn cynnwys ffurflen gais, disgrifiad swydd, nodiadau cyfweliad, dau eirda, contract, a holiadur meddygol.

Roedd system ar waith i gofnodi a monitro archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a nodwyd a chymeradwywyd gennym yr arfer da a fabwysiadwyd gan yr ysbyty i adnewyddu archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd i'r holl staff. Mae'r arfer hwn yn sicrhau bod gan yr ysbyty archwiliad annibynnol sy'n helpu i wella gallu'r sefydliad i asesu unplygrwydd a chymeriad unigolyn.

Roedd cofrestriadau proffesiynol yn cael eu rheoli'n ganolog ac yn electronig, ac roedd yr ysbyty'n cael ei hysbysu pan oedd cofrestriadau ar fin dod i ben.

Roedd system werthuso flynyddol ar waith ar gyfer yr holl staff. Roedd yr ystadegau a ddarparwyd yn dangos y sicrhawyd cydymffurfriad o 100% ar gyfer 2015. Roedd ffigurau ar gyfer 2016 yn dangos cydymffurfriad o 33.3% ar gyfer staff cymorth a chyfradd gydymffurfio o 75% ar gyfer staff nyrsio cofrestredig. Roedd yr holl staff eraill yn gyfredol ac roedd ganddynt tan ddiwedd mis Mawrth 2016 i gyflawni eu gwerthusiadau.

Roedd system oruchwyllo wedi cael ei rhoi ar waith ar gyfer yr holl staff yn dilyn ein hymweliad blaenorol ym mis Medi 2014. Fodd bynnag, nid oedd goruchwyliaeth ym Mhentre'r Eglwys wedi cael ei hymsefydlu'n llawn a chydabuwyd hyn gan y rheolwyr. O'r pum ffeil staff i ni eu hadolygu, dim ond dau aelod o staff yr oedd goruchwyliaeth wedi ei chofnodi ar eu cyfer yn 2016. Mae'r ysbyty wedi llunio cynllun goruchwyllo er mwyn gwella ac ymsefydlu goruchwyliaeth ymhellach drwy'r ysbyty cyfan a bydd y cynllun yn cael ei fonitro drwy'r prosesau llywodraethu mewnol.

Roedd rhaglen o hyfforddiant gorfodol ar waith ar gyfer yr holl staff. Roedd gan staff cymwysedig gyfradd gydymffurfio gyffredinol o 84.4% ac roedd gan staff cymorth 86.7%. Roedd yr ystadegau a ddarparwyd yn dangos bod y staff wedi sicrhau cydymffurfiaid o 100% mewn nifer o feysydd. Roedd rhai o'r cyrsiau'n cynnwys diogelu oedolion agored i niwed, codi a chario, trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, gweithdrefnau brys, ac iechyd a diogelwch.

Roedd gan ganran fach o weithwyr cymorth hyfforddiant a oedd yn hwyr neu wedi mynd heibio ei amser mewn nifer o feysydd, ac mae angen adolygu'r rhain er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau eu rhaglen o hyfforddiant gorfodol.

Cynhaliwyd adolygiad o gwynion, a chanfuwyd gennym mai dim ond dau gŵyn oedd wedi cael eu gwneud yn 2015 a dau yn 2016. Roedd y ddau gŵyn a wnaed yn 2015 wedi cael eu cloi ac roedd y golofn gwersi a ddysgwyd ar y log cwynion wedi cael ei chwblhau. Nid oedd y llythyr achwyn gwreiddiol ar y ffeil yng nghyswllt un o'r cwynion a adolygwyd, ond roedd wedi cael ei deipio yn y cofnod cronfa ddata.

Roedd y ddau gŵyn a logwyd yn 2016 yn gwynion diweddar ac heb eu cloi. Roedd disgwyl cyfarfodydd yn eu cylch gyda rheolwr yr ysbyty, a oedd wedi cael eu trefnu. Roedd y ddau gŵyn wedi eu cofnodi ar y log a oedd ym mlaen y ffolder cwynion.

Gofynion

Mae angen adolygu'r ystadegau staff cymorth o'r system Sylfeini ar gyfer Twf er mwyn sicrhau bod y staff â hyfforddiant hwyr neu sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad wedi cwblhau cyrsiau neu wedi trefnu i fynd ar rai.

Mae angen cynnydd parhaus i ymsefydlu goruchwyliaeth staff yn llawn yn unol â chynllun goruchwyliaeth 2016.

Llywodraethu

O dan Reoliad 28 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar y meysydd a restrir yn Rheoliad 28 i AGIC bob chwe mis. Nid yw AGIC wedi derbyn copïau o unrhyw adroddiadau a gyflawnwyd gan y darparwr cofrestredig.

Gofyniad

Mae angen cynnal ymweliadau Rheoliad 28 bob chwe mis ac anfon yr adroddiadau i AGIC.

Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol pump o'r cleifion sy'n cael eu cadw yn The Priory, Pentre'r Eglwys. Roedd y dogfennau statudol i ni eu hadolygu yn drefnus ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Cafodd yr holl gleifion sy'n derbyn gofal yn The Priory, Pentre'r Eglwys, eu trosglwyddo i mewn i'r ysbyty a'u cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Cwblhawyd y papurau trosglwyddo a adolygwyd yn unol â'r Ddeddf.

Pan fo cleifion wedi bod yn destun adnewyddiad gorchymyn cadw, roedd y ffurflenni cywir wedi cael eu cwblhau yn unol â'r amserlenni gofynnol. Roedd y dogfennau statudol yn nodi pam mae ei gadw o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i'r claf o hyd. Cynhaliwyd gwrandawiaidau rheolwyr yr ysbyty yn ôl y gofyn ar adnewyddu gorchymynion cadw.

Caiff cleifion eu cynorthwyo i apelio yn erbyn eu gorchymyn cadw i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, neu eu hatgyfeirio ar ran y claf os nad yw'r claf wedi apelio yn unol â'r amserlenni statudol.

Pan oedd cleifion wedi eu cadw o dan Ran 3 y Ddeddf, *Cleifion sy'n rhan o achosion troseddol neu'n destun dedfryd*, roedd dogfennau o ran eu gorchymynion ysbyty ar gael.

Roedd yr holl ffurflenni awdurdodi seibiant Adran 17³ yn cael eu hawdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf â chyfyngiad amser neu ddyddiad adolygu wedi ei gwblhau. Fodd bynnag, nid oedd yr holl ffurflenni seibiant wedi dod i ben yn ffeiliau'r cleifion wedi eu marcio'n eglur fel rhai nad oeddent yn ddilys mwyach. Dylid gwneud hyn er mwyn sicrhau bod eglurder o ran pa seibiant Adran 17 sydd ar waith ar gyfer pob claf.

Roedd cofnod o drafodaeth gyda chleifion am eu hawliau o dan Adran 132 y Ddeddf. Mae gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol yn mynychu'r ysbyty yn rheolaidd.

Gofyniad

Mae angen adolygu'r holl ffurflenni seibiant Adran 17 sydd wedi dod i ben a'u diweddarau i nodi nad ydynt yn ddilys mwyach er mwyn sicrhau eglurder.

³ Seibiant i glaf o dir yr ysbyty wedi ei awdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Adolygwyd y dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth gennym ar gyfer pum claf yn The Priory, Pentre'r Eglwys, a nodwyd yr arsylwadau canlynol:

- Roedd y nodau diabetig yng nghynllun gofal claf yn gyffredinol ac roedd angen iddynt fod yn fwy penodol.
- Roedd y cynlluniau gofal a adolygwyd yn canolbwyntio ar yr hyn na allai claf ei wneud yn hytrach na'r hyn y gall ei wneud.
- Roedd un claf wedi bod yn yr ysbyty ers mis ac yn dal i fod ar gynllun gofal derbyn. Mae angen diweddarau'r cynllun gofal gan nad oedd y cynllun yn dangos bod adolygiad o'i anghenion cyfredol wedi cael ei gynnal a bod ei driniaeth/gofal yn cael eu darparu i ddiwallu ei anghenion.
- Mae angen mwy o bwyslais ar gynllunio rhyddhad a phennu nodau sy'n seiliedig ar wellhad.
- Roedd claf anffurfiol yn cael ei nyrsio ar sail arsylwadau un i un. Oherwydd perygl o ddianc, roedd y cynllun gofal yn nodi na ddylai'r claf adael a, pe bai eisiau gwneud hynny, yna y dylid ei gadw. Mae angen cynnal adolygiad ac asesiad brys i ganfod statws y claf. (Byddai'r risg o ddianc yn awgrymu nad oedd y claf yn cytuno i dderbyniad anffurfiol i'r ysbyty.)

(Rhoddwyd llythrennau cyntaf enwau'r cleifion i'r ysbyty yn ystod y cyfarfod adborth er mwyn sicrhau y gellid diwygio eu cynlluniau gofal a thriniaeth.)

Gofyniad

Mae'n rhaid rhoi sylw i'r holl feysydd a nodwyd, gan gynnwys sicrhau bod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr hyn y gall cleifion ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, bod nodau diabetig mewn cynlluniau gofal yn benodol yn hytrach na chyffredinol, a bod unrhyw glaf sydd ar gynllun gofal derbyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau. Mae angen mwy o bwyslais ar gynllunio rhyddhad a nodau gwella ac mae angen asesiad o allu a statws claf.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i The Priory, Pentre'r Eglwys, gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) er mwyn rhoi sylw i'r canfyddiadau allweddol o'r arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn ysbyty The Priory, Pentre'r Eglwys, yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu iechyd meddwl/anabledd dysgu barhaus.

Atodiad A

Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella
Darparwr: Craegmoor Hospitals Limited
Ysbyty: The Priory, Pentre'r Eglwys
Dyddiad yr Arolygiad: 23 – 24 Mawrth 2016

Rhif Tudalen	Gofyniad	Rheoliad	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
13	<p>Mae angen cynnal adolygiad o'r ystafell glinigol gan roi sylw penodol i:</p> <ul style="list-style-type: none">• Storio gorchuddion meddygol a chyflenwadau eraill fel nad yw'r ystafell yn anniben.• Mae angen asesu'r drws i'r ystafell glinigol er	15 (5) (a) (b)	<p>Symudwyd hwn i'r cwpwrdd gorchuddion meddygol. Roedd y bocs yno gan fod danfoniad newydd gyrraedd.</p> <p>Nid yw'r drws erioed wedi cael ei agor gan gleifion; fodd bynnag,</p>	<p>Laura Pocock, Rheolwr Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Dean Harries, Cyfarwyddwr</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

	<p>mwyn sicrhau na all cleifion ei agor.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen gwirio'r feddyginiaeth sy'n cael ei storio yn yr ystafell glinigol er mwyn sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth sydd heibio ei dyddiad a/neu wedi ei thynnu yn ôl o drefn feddyginiaeth claf yn cael ei gwaredu neu ei dychwelyd. • Dylid rhoi dyddiad agor ar becyn unrhyw feddyginiaeth sy'n cael ei hgor. • Cofnodi llofnodion ac amseroedd ar gofnodion a siartiau meddyginiaeth. • Defnyddio unedau 		<p>gosodwyd bollt ar waelod y drws er mwyn sicrhau diogelwch.</p> <p>Nid oedd angen cael gward ar feddyginiaeth a dynnwyd yn ôl neu a ataliwyd gan ei bod yn feddyginiaeth stoc.</p> <p>Cafwyd gward ar y botel a nodwyd ar unwaith.</p> <p>Mae amseroedd yn cael eu cofnodi yn y llyfr cyffuriau a reolir erbyn hyn.</p> <p>Mae'r ysbyty wedi diwygio'r system</p>	<p>Ysbyty</p> <p>Laura Pocock, Rheolwr Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Laura Pocock, Rheolwr Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Laura Pocock, Rheolwr Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Laura Pocock,</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
--	--	--	---	---	--

	<p>mesur safonol yn benodol i gofnodi lefelau stoc a meddyginiaeth a roddir.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd angen croesi cyffur a restrwyd ar dudalen fynegai'r llyfr cyffuriau a reolir allan gydag un llinell drwy'r cofnod. • Nid oedd tudalennau yn y llyfr cyffuriau a reolir yn cyfateb i'r cyffuriau a gofnodwyd yn y mynegai. 		<p>fel ei bod yn fwy eglur.</p> <p>Cwblhawyd ar unwaith. Un cyffur oedd hwn, sydd wedi cael ei ddiweddarau yn y cofnodion erbyn hyn.</p> <p>Mae'r tudalennau wedi cael eu rhifo bellach.</p>	<p>Rheolwr Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Laura Pocock, Rheolwr Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Laura Pocock, Rheolwr Gwasanaethau Clinigol</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
16	Mae angen sicrwydd bod yr holl fwyd sy'n cael ei weini i'r	15 (9) (b)	Mae'r holl fwydlenni wedi cael eu hadolygu gan y deietegydd a'u	Dean Harries, Cyfarwyddwr	Cwblhawyd

	grŵp cleifion yn bodloni eu gofynion deietegol a meddygol.		cymeradwyo cyn cael eu hargraffu gan ystyried gwerth maeth. Darperir pwddin diabetig i gleifion sydd angen hyn a cheir dewisiadau amgen yn hytrach na mathau o fwydydd eraill hefyd.	Ysbyty	
17	Mae angen adolygu'r ystadegau staff cymorth o'r system Sylfeini ar gyfer Twf er mwyn sicrhau bod y staff â hyfforddiant hwyr neu sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad wedi cwblhau cyrsiau neu wedi trefnu i fynd ar rai.	20 (1) (a)	Mae holl aelodau'r staff y mae eu hyfforddiant wedi dod i ben yn cael eu hysbysu a rhoddir cyfleoedd iddynt gwblhau'r cwrs.	Dean Harries, Cyfarwyddwr Ysbyty	Cwblhawyd
17	Mae angen cynnydd parhaus i ymsefydlu goruchwyliaeth staff yn llawn yn unol â chynllun goruchwyliaeth 2016.	20 (2) (a)	Mae'r cynllun yn cael ei ddilyn er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth yn cael ei ymsefydlu mewn arfer.	Dean Harries, Cyfarwyddwr Ysbyty	Cwblhawyd
18	Mae angen cynnal ymweliadau Rheoliad 28 bob chwe mis ac anfon yr adroddiadau i AGIC.	28 (2) (a) (b) (c) a (3) a (4) (a) (b) (c) a	Cynhaliwyd ymweliad Rheoliad 28 ar 3 Mehefin 2016 a bydd yn cael ei anfon i AGIC bob chwe mis.	Dean Harries, Cyfarwyddwr Ysbyty	Cwblhawyd

		(5) (a) (b) (c)			
20	Mae'n rhaid rhoi sylw i'r holl feysydd a nodwyd, gan gynnwys sicrhau bod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr hyn y gall cleifion ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, bod nodau diabetig mewn cynlluniau gofal yn benodol yn hytrach na chyffredinol, a bod unrhyw glaf sydd ar gynllun gofal derbyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau. Mae angen mwy o bwyslais ar gynllunio rhyddhad a nodau gwella ac mae angen asesiad o allu a statws claf.	15 (1) (a) (b) (c)	<p>Mae geiriad cynlluniau gofal yn cael ei adolygu fel bod yr hyn y gall y claf ei wneud yn cael ei nodi.</p> <p>Mae nodau diabetig yn cael eu hadolygu fel eu bod yn benodol i gleifion unigol.</p> <p>Bydd archwiliad o gynlluniau gofal yn cael ei gynnal i sicrhau bod ganddynt nodau penodol i gleifion unigol ac yn adolygu ac amlygu cynnydd a wneir.</p> <p>Sicrhau bod cynlluniau gofal derbyn yn cael eu dirwyn i ben pan nad oes eu hangen mwyach.</p> <p>Mae'r claf yn cael ei gadw erbyn hyn.</p>	<p>Dean Harries, Cyfarwyddwr Ysbyty</p> <p>Dean Harries, Cyfarwyddwr Ysbyty</p> <p>Dean Harries, Cyfarwyddwr Ysbyty</p> <p>Dean Harries, Cyfarwyddwr Ysbyty</p> <p>Dean Harries, Cyfarwyddwr Ysbyty</p>	<p>01/07/16</p> <p>01/07/16</p> <p>20/07/16</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Argymhellion					
16	Roedd y bwydlenni a oedd wedi eu harddangos yn yr ystafell fwyta wedi eu hargraffu ar bapur maint A4 a byddai o fudd pe baent yn cael eu hargraffu ar bapur mwy i wneud yr ysgrifen yn fwy.		Anfonwyd y bwydlenni at argraffydd i gynyddu eu maint.	Dean Harries, Cyfarwyddwr Ysbyty	01/07/16
Deddf Iechyd Meddwl					
19	Mae angen adolygu'r holl ffurflenni seibiant Adran 17 sydd wedi dod i ben a'u diweddarau i nodi nad ydynt yn ddilys mwyach er mwyn sicrhau eglurder.		Mae ffurflenni Adran17 nad ydynt yn ddilys mwyach yn cael eu nodi'n eglur erbyn hyn.	Dean Harries, Cyfarwyddwr Ysbyty	Cwblhawyd